***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 7

GORFODI

*Hysbysiadau gwybodaeth*

### 111 Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) yr awdurdod cynllunio perthnasol yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 103 neu 104 fod wedi ei chyflawni ar y tir neu mewn cysylltiad â'r tir yn ei ardal;

(b) Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 103 neu 104 fod wedi ei chyflawni ar dir yng Nghymru neu mewn cysylltiad â thir yng Nghymru;

(c) Gweinidogion Cymru yn ystyried y gallai trosedd o dan adran 103 neu 104 fod wedi ei chyflawni yn ardal forol Cymru neu mewn cysylltiad ag ardal forol Cymru.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio perthnasol gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i unrhyw berson—

(a) sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo, neu

(b) sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i unrhyw berson—

(a) sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo,

(b) sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, neu

(c) sy'n cynnal gweithrediadau yn ardal forol Cymru.

(4) Rhaid i'r hysbysiad gwybodaeth—

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(a) pennu'r materion y mae'r awdurdod cynllunio, neu Weinidogion Cymru, yn ystyried y gallent fod yn drosedd, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo ("y derbynnydd") roi'r wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, i'r graddau y bo'r derbynnydd yn gallu gwneud hynny.

(5) Yr wybodaeth y caniateir ei phennu yn yr hysbysiad yw gwybodaeth ynghylch—

(a) unrhyw weithrediadau sy'n cael eu cynnal,

(b) unrhyw ddefnydd o dir,

(c) unrhyw weithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal, a

(d) unrhyw fater sy'n ymwneud â darpariaethau gorchymyn cydsyniad seilwaith.

(6) Rhaid i hysbysiad gwybodaeth hysbysu'r person y'i cyflwynir iddo am ganlyniadau tebygol methu ag ymateb i'r hysbysiad ac, yn benodol, y gellir cymryd camau gorfodi.

(7) Rhaid i dderbynnydd hysbysiad gwybodaeth gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad drwy roi'r wybodaeth ofynnol yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio perthnasol, neu os rhoddwyd yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru, i Weinidogion Cymru.